# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Cofnodion EIN(2) 02-07

### Dyddiad y cyfarfod: 14 Chwefror 2007
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 12.32
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Gweinidog) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

#### Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Tony Sadler | Pennaeth Cynllunio-Trenau, Virgin West Coast |
| Steve Leyland | Rheolwr Materion Allanol, Virgin West Coast |
| Stella Mair Thomas | Cynrychiolydd Cymru, Passenger Focus |
| Simon Pickering | Rheolwr Cyswllt Teithwyr, Passenger Focus |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr, yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| James Price | Cyfarwyddwr, Polisi a Strategaeth |
| Julian Revell | Ystadegau Economaidd a'r Farchnad Lafur |
| Jarlath Costello | Pennaeth Ymchwil a Datblygu |
| Tracey Burke | Cyfarwyddwr Strategaeth ac Adolygu |
| Robin Shaw | Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth Cymru |
| Karen Thomas | Cyfarwyddwr Rhanbarthol, y De-ddwyrain a Seilwaith |
| Piers Bisson | Pennaeth Polisi Trafnidiaeth a Seilwaith |
| Tim Dorken | Is-adran Rheilffyrdd a Ffyrdd Newydd |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc y Pwyllgor |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

**Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau**

1.1 Cafwyd ymddiheuriad gan Kirsty Williams. Roedd Mike German yn dirprwyo ar ei rhan.

1.2 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi**
**Papur: EIN(2) 01-07 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2007**
**EIN(2) 02-07 – Camau heb eu Cymryd**

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr yn rhai cywir.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

**Papur: EIN(2) 02-07 p1- Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog.

**Camau i'w Cymryd:**

- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad ar hynt y broses o echdynnu nwy methan o'r maes glo yng nghwm Ogwr a chwm Garw.
- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddyrannu cyllideb y Gronfa Datblygu Gwybodaeth yn y sector Addysg Bellach.
- Cytunodd y Gweinidog i roi gwybodaeth am gynyrchiadau ffilm a theledu sydd wedi cael buddsoddiad gan Gronfa ED Creadigol Cymru.
- Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa o ran Buddsoddiad Cyfalaf sy'n gysylltiedig ?hrosiectau mewnfuddsoddi.

**Eitem 4: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth**
**Papur: EIN(2) 02-07 p2**

4.1 Nododd y Pwyllgor yr eitemau o is-ddeddfwriaeth sydd eisoes wedi'u nodi fel eitemau i graffu arnynt.

**Camau i'w Cymryd:**

- Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i'w hysbysu bod y Pwyllgor wedi cytuno i hepgor y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio Arfaethedig – bysiau o'r rhestr gan ei fod bellach yn rhan o'r Mesur Trafnidiaeth Ffyrdd.

**Eitem 5: Rheoliadau Priffyrdd (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2007**
**Papur: EIN(2) 02-07 (p3)**

5.1 Trafododd y Pwyllgor Reoliadau Priffyrdd (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2007.

**Camau i'w Cymryd:**

- Bydd y Clerc yn paratoi adroddiad i'r Pwyllgor Busnes.

**Eitem 6: Gwerth Ychwanegol Crynswth yng Nghymru**
**Papur: EIN(2) 02-07 (p4)**

6.1 Trafododd y Pwyllgor Werth Ychwanegol Crynswth yng Nghymru.

**Eitem 7: Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru**
**Papur: EIN(2) 02-07 (p5)**
**EIN(2) 02-07 (p6)**

7.1 Trafododd y Pwyllgor ddarpariaeth y gwasanaethau rheilffyrdd a ddarperir yng Nghymru gyda chynrychiolwyr Virgin Trains a Passenger Focus.

## Camau i'w Cymryd

- Bydd Passenger Focus yn cadarnhau os yw'r gwasanaeth Caerdydd i Newcastle wedi'i gynnwys yn y cais masnachfraint Traws Gwlad newydd.
- Bydd Virgin Trains yn ymchwilio i'r rhesymau dros gau'r cyfleusterau arlwyo yng ngorsaf Crewe yn gynnar ar nosweithiau Sul, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau